Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
—
Economy, Trade, and Rural Affairs Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a
Chyfiawnder Cymdeithasol

21 Rhagfyr 2022

Annwyl Jenny,

## Ail gyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn darparu ar gyfer sefydlu Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE fel rhan o'i strwythurau llywodraethu. Mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn chwarae rhan bwysig o ran goruchwylio gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac unrhyw gytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Dyma'r unig gorff a all ddwyn y Cyngor Partneriaeth i gyfrif, sef y corff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd a Gweinidogion Llywodraeth y DU.

Buom yn cynrychioli'r Senedd yn ail gyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE ar 7-8 Tachwedd. Yn ystod y cyfarfod hwn, trafodwyd hawliau dinasyddion a bu modd inni amlygu'r gwaith pwysig y mae eich Pwyllgor wedi'i wneud ar y mater hwn. Roeddem felly am dynnu eich sylw at ein hadroddiad byr ar ganlyniad y trafodaethau ac yn arbennig y casgliadau ynghylch hawliau dinasyddion.

Gwnaeth ein hadroddiad nifer o argymhellion hefyd ar sut y gallai'r Senedd fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ymgysylltu a ddaw yn sgil y Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Maent yn cynnwys:


- darparu adroddiadau ar faterion o ddiddordeb i bwyllgorau eraill y Senedd megis y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; a
- gweithio gyda phwyllgorau'r Senedd i ddatblygu cysylltiadau anffurfiol ag aelodau o ddirprwyaethau'r DU a'r UE i'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Rydym yn gobeithio bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn y flwyddyn newydd cyn cyfarfod nesaf y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym mis Mai 2023, a gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb i'ch Pwyllgor yn y cyfamser.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad



Luke Fletcher
Aelod
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig